MATHEMATEG – SESIWN 6: BYLCHAU'N NEWID DROS GYFNOD

Ystod oedran: 11–16 oed

Amlinelliad Bydd y dysgwyr yn trin a thrafod rhai o'r ffyrdd y mae mynediad at ddŵr, glanweithdra a thrydan wedi datblygu dros gyfnod yng nghymunedau Bywydau Ifanc yn y pedair gwlad (Ethiopia, India, Periw a Fiet-nam). Bydd y dysgwyr yn llunio graffiau llinell i ddarlunio'r newidiadau i wahanol ddangosyddion datblygiad yn y pedair gwlad hyn a'r Deyrnas Unedig dros gyfnod. Yna, byddant yn trafod sut y mae'r dangosyddion wedi newid, pa ffactorau allai fod wedi cyfrannu at y newidiadau hyn, ac unrhyw beth sy'n debyg ac yn wahanol o ran cyflymder y newid yn y pum gwlad. Yn olaf, bydd y dysgwyr yn gwneud rhagfynegiadau o ran sut y bydd y dangosyddion hyn yn newid yn y dyfodol yn eu tyb nhw.	
Amcanion dysgu • Dehongli data mewn tablau a graff llinell, a chyfrifo newidiadau canrannol. • Gallu llunio graff llinell i ddangos sut y mae dangosydd datblygiad wedi newid dros gyfnod ym mhedair gwlad y prosiect Bywydau Ifanc ac yn y Deyrnas Unedig. • Nodi rhai ffactorau a allai effeithio ar y ffordd y mae dangosydd datblygiad yn newid dros gyfnod. • Gwybod sut i dynnu data o graff llinell.	**Deilliannau dysgu** • Bydd y dysgwyr yn cyfrifo newidiadau canrannol. • Bydd y dysgwyr yn llunio graffiau llinell i ddangos sut y mae mynediad at ddŵr yfed, cyfleusterau glanweithdra a thrydan, a dangosyddion datblygiad eraill, wedi newid dros gyfnod ym mhedair gwlad y prosiect Bywydau Ifanc ac yn y Deyrnas Unedig. • Bydd y dysgwyr yn defnyddio'u graffiau llinell i wneud rhagfynegiadau o ran sut y bydd y dangosyddion hyn yn newid yn y dyfodol yn eu tyb nhw.

Cwestiynau allweddol
• Sut ydych chi'n meddwl y bydd gwerth y dangosydd hwn yn newid dros gyfnod? Pam ydych chi'n meddwl hyn?
• Sut byddech chi'n disgrifio'r newid o ran y dangosydd hwn ym mhob un o'r pum gwlad? Pa ffactorau sydd wedi cyfrannu at y newidiadau hyn dros gyfnod yn eich tyb chi?
• O edrych ar gyflymder y newid yn y pum gwlad, beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol? Beth yw'r rhesymau posibl dros unrhyw wahaniaethau yn eich tyb chi?
• Sut ydych chi'n meddwl y bydd y dangosydd hwn yn newid yn y dyfodol? Pam ydych chi'n meddwl hyn?
	Adnoddau
	• *Mathemateg – Sioe sleidiau B* (sleidiau 21–30)
	• Taflenni adnoddau:
	  ○ *Newidiadau yng ngwledydd Bywydau Ifanc (Tabl wedi'i lenwi)*
	  ○ *Cynnyrch mewnwladol crynswth (CMC) y pen*
	  ○ *Data'n newid 1, 2* a *3*
	• Taflenni gweithgareddau:
	  ○ *Newidiadau yng ngwledydd Bywydau Ifanc / Templed graff llinell / Dehongli graff llinell*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Noder:

- *Gweithgareddau ac adnoddau arfaethedig i'ch cynorthwyo â'ch addysgu, yn hytrach na'i lywio, yw'r rhain. Gall fod angen i chi wneud mwy o waith addysgu i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwyr o ran rhai o'r cysyniadau hyn.*
- *Mae'r dysgwyr yn ymchwilio i rai o'r newidiadau sydd wedi digwydd yn ystod y 15 mlynedd ers dechrau'r prosiect Bywydau Ifanc, rhwng 2000 a 2015, yn y pecyn* Daearyddiaeth – Sesiwn 7.

Gweithgaredd 6.1 *(25 munud)*

Newidiadau yng ngwledydd Bywydau Ifanc

Noder: Bydd y dysgwyr hefyd yn trin a thrafod newidiadau yn rhai o gymunedau Bywydau Ifanc ac yn y gwledydd yn gyffredinol yn y pecyn Daearyddiaeth – Sesiwn 7.

- Trefnwch y dysgwyr mewn parau neu grwpiau o dri. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am y gwahanol ddangosyddion datblygiad y maent wedi dod ar eu traws mewn sesiynau blaenorol ac am y Nodau Datblygu Cynaliadwy a gyflwynwyd iddynt yn y *Sesiwn ragarweiniol.* Rhowch ddwy funud i'r dysgwyr fynd ati yn eu grwpiau i ysgrifennu'r holl ddangosyddion datblygiad sy'n dod i'w meddwl. Dyma rai dangosyddion posibl:
  - *Disgwyliad oes*
  - *Incwm cyfartalog y person (CMC y pen)*
  - *Cyfradd marwolaethau babanod*
  - *Mynediad at ffynhonnell ddŵr well*
  - *Mynediad at gyfleusterau glanweithdra gwell*
  - *Mynediad at drydan*
  - *Cofrestriadau mewn ysgolion cynradd*
  - *Nifer y tanysgrifiadau ffonau symudol fesul 100 o bobl*
  - *Nifer y meddygon fesul 1,000 o bobl*
  - *Nifer y rhai sy'n defnyddio'r Rhyngrwyd*
  - *Allyriadau CO_2 cyfartalog y person*
- Ceir enghreifftiau ar sleidiau 22 a 23 hefyd.
- Rhannwch syniadau'r dysgwyr fel dosbarth cyfan. Trafodwch sut y maent yn meddwl y bydd gwerthoedd y dangosyddion datblygiad hyn wedi newid dros gyfnod ym mhedair gwlad y prosiect Bywydau Ifanc (Ethiopia, India, Periw a Fiet-nam):
  - *Pa ddangosyddion ydych chi'n meddwl y bydd eu gwerth wedi cynyddu, a pham?*
  - *Pa ddangosyddion ydych chi'n meddwl y bydd eu gwerth wedi gostwng, a pham?*
  - *Pa ddangosyddion ydych chi'n meddwl y bydd eu gwerth wedi aros yr un fath, a pham?*
- Eglurwch fod yr ymchwilwyr wedi bod yn astudio sut y mae rhai o'r dangosyddion datblygiad hyn wedi newid dros gyfnod yng nghymunedau'r prosiect Bywydau Ifanc.
- Rhowch gopi o'r tabl *Newidiadau yng ngwledydd Bywydau Ifanc* i bob grŵp. Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar y tabl a thrafod yr hyn y mae'n ei ddangos.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Gofynnwch i'r dysgwyr lenwi'r tabl i ddangos y newidiadau canrannol ar gyfer pob dangosydd ym mhob gwlad dros gyfnod. Ceir fersiwn gyflawn o'r tabl (gyda'r newidiadau canrannol wedi'u talgrynnu i un lle degol) yn *Newidiadau yng ngwledydd Bywydau Ifanc – Tabl wedi'i lenwi.*
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r data i ateb y cwestiynau a ganlyn ar gyfer pob un o'r dangosyddion. *Ym mha wlad y cafwyd y cynnydd mwyaf rhwng 2002 a 2013? Ym mha wlad y cafwyd y cynnydd lleiaf?*
- Trafodwch ganfyddiadau'r dysgwyr gan ddefnyddio'r cwestiynau a ganlyn i sbarduno'r drafodaeth:
    - *Pa ffactorau sydd wedi cyfrannu at y newidiadau hyn dros gyfnod yn eich tyb chi?*
    - *Sut ydych chi'n meddwl y bydd mynediad at gyfleusterau glanweithdra, dŵr yfed a thrydan yn newid yn y dyfodol? Pam ydych chi'n meddwl hyn? Beth fydd effeithiau'r newidiadau hyn yn eich tyb chi?*
    - *Ydych chi'n meddwl bod ffordd well na thabl o gyflwyno'r data hyn? Os felly, beth yw'r ffordd honno, a pham ydych chi'n meddwl hyn?*
- Dywedwch mai data meintiol yw'r data yn y tabl *Newidiadau yng ngwledydd Bywydau Ifanc*. Mae ymchwilwyr Bywydau Ifanc hefyd wedi casglu data ansoddol i ymchwilio i'r ffordd y mae'r cymunedau, yn ogystal â bywydau'r bobl ifanc, wedi newid dros gyfnod. Ceir esboniad syml o'r gwahaniaeth rhwng data meintiol a data ansoddol ar sleid 24.
- Eglurwch fod data meintiol bob amser yn ymwneud â rhifau a bod y data fel arfer yn cael eu dadansoddi gan ddefnyddio dulliau mathemategol ac ystadegol. Mae data ansoddol yn ddefnyddiol pan fydd ymchwilwyr am bwyso a mesur newidiadau mewn ffordd systematig neu wneud sylwadau cyffredinol am sampl cyfan neu boblogaeth gyfan. Nid yw data ansoddol yn ymwneud â rhifau. Gallant gynnwys geiriau, lluniau, ffotograffau a/neu arsylwadau. Mae'r data hyn yn aml yn rhoi darlun manwl, ac maent yn arbennig o ddefnyddiol i bwyso a mesur sut a pham y mae pethau wedi digwydd neu newid mewn ffordd benodol.
- Eglurwch fod cyfweliadau ag unigolion a grwpiau, yn ogystal ag arsylwadau uniongyrchol yr ymchwilwyr yn ystod eu hymweliadau â chymunedau Bywydau Ifanc amrywiol, yn enghreifftiau o ffynonellau data ansoddol y prosiect Bywydau Ifanc. Dangoswch sleidiau 25 i 28 a dywedwch fod y testun hwn yn disgrifio rhai o'r newidiadau y mae'r ymchwilwyr hyn wedi arsylwi arnynt yng nghymunedau rhai o'r bobl ifanc a gyflwynwyd i'r dysgwyr mewn sesiynau blaenorol. *Sylwch fod yr ymchwilwyr yn siarad ar ran tîm ehangach o ymchwilwyr ym mhob gwlad. Mae'r dysgwyr hefyd yn trin a thrafod yr arsylwadau hyn ac eraill ynghylch y newidiadau yn rhai o gymunedau Bywydau Ifanc yn y pecyn* Daearyddiaeth – Sesiwn 7.

Gwahaniaethu

- *Gwneud pethau'n anos: Gofynnwch i'r dysgwyr roi'r newidiadau canrannol wedi'u talgrynnu i un neu ddau le degol.*

Gweithgaredd 6.2 *(45 munud)*

Data'n newid

- Rhannwch gopïau o *Cynnyrch mewnwladol crynswth (CMC) y pen.* Atgoffwch y dysgwyr mai mesur o incwm blynyddol cyfartalog pob person mewn gwlad yw CMC y pen. Eglurwch fod y

tabl a'r graffiau llinell yn dangos sut y mae CMC y pen wedi newid yn y Deyrnas Unedig ac ym mhedair gwlad y prosiect Bywydau Ifanc dros gyfnod. Ceir tabl a chopi lliw o'r graff llinell ar sleidiau 29 a 30.

- Tynnwch sylw at y ffaith nad oes data ar gael ar gyfer Ethiopia a Fiet-nam ambell flwyddyn. Trafodwch y rhesymau posibl pam nad oes data ar gael, fel diffyg seilwaith i gasglu data dibynadwy mewn cymunedau tlotach a mwy ynysig.
- Eglurwch fod y dysgwyr yn mynd i drin a thrafod sut y mae rhai o'r dangosyddion datblygiad eraill wedi newid dros gyfnod yng nghymunedau'r prosiect Bywydau Ifanc ac yn y Deyrnas Unedig.
- Trefnwch y dysgwyr mewn parau a rhowch gopi o un o'r tablau *Data'n newid* i bob pâr. Gofynnwch i'r dysgwyr lunio graff llinell i ddangos sut y mae eu dangosydd datblygiad wedi newid dros gyfnod ym mhedair gwlad y prosiect Bywydau Ifanc ac yn y Deyrnas Unedig.
- Yn eu parau, gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar y graff llinell a thrafod yr atebion i'r cwestiynau a ganlyn:
    - *Sut byddech chi'n disgrifio'r newid o ran y dangosydd hwn ym mhob un o'r pum gwlad?*
    - *Pa ffactorau sydd wedi cyfrannu at y newidiadau hyn dros gyfnod yn eich tyb chi?*
    - *O edrych ar gyflymder y newid yn y pum gwlad, beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol? Beth yw'r rhesymau posibl dros unrhyw wahaniaethau yn eich tyb chi?*
    - *Sut ydych chi'n meddwl y bydd y dangosydd hwn yn newid ym mhob gwlad yn y dyfodol? Pam ydych chi'n meddwl hyn?*
    - *Beth ydych chi'n meddwl fydd gwerth y dangosydd hwn ym mhob un o'r gwledydd yn 2020? Beth am 2050?*
- Gofynnwch i'r dysgwyr gofnodi eu hatebion i'r cwestiynau uchod drwy lenwi *Dehongli graff llinell.*
- Rhowch gyfle i'r dysgwyr rannu eu graffiau llinell a'u canfyddiadau fel dosbarth cyfan. Trafodwch syniadau'r dysgwyr o ran sut y bydd bywydau'r bobl ifanc yng ngwledydd y prosiect Bywydau Ifanc yn newid yn y dyfodol yn eu tyb nhw.
- Efallai y byddwch am drafod a yw cynnydd mewn allyriadau CO_2 yn 'ddatblygiad' ai peidio. Trafodwch a yw'r dysgwyr yn meddwl y bydd cynnydd mewn allyriadau CO_2 yn gysylltiedig â newid cadarnhaol neu newid negyddol ym mywydau pobl ifanc gwledydd y prosiect Bywydau Ifanc. *Noder: Mae allyriadau CO_2 tiriogaethol yn cynnwys yr allyriadau CO_2 sy'n cael eu cynhyrchu yn y wlad yn unig. Nid yw'r dangosydd hwn yn cynnwys allyriadau CO_2 sy'n tarddu o gynhyrchu mewnforion gwlad. Mae rhai gwledydd, fel y Deyrnas Unedig, yn mewnforio llawer o gynhyrchion. Mae gwledydd eraill, fel India, yn gweithgynhyrchu ac yn allforio llawer o gynhyrchion.*

Gwahaniaethu

- *Gwneud pethau'n haws: Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r* Templed graff llinell *i lunio eu graffiau llinell.*
- *Gwneud pethau'n anos: Gofynnwch i'r dysgwyr lunio graffiau llinell ar gyfer mwy nag un o'r dangosyddion datblygiad.*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Syniadau pellach

- Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r Rhyngrwyd i gael hyd i enghreifftiau eraill o ddata meintiol a data ansoddol, ac i nodi sefyllfaoedd lle y gall y naill fath o ddata fod yn fwy addas na'r llall.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ymchwilio i'r ffordd y caiff y dangosyddion datblygiad hyn, er enghraifft disgwyliad oes, eu cyfrifo. Gallent hefyd bwyso a mesur sut y mae dangosyddion datblygiad eraill wedi newid dros gyfnod. Dyma rai ffynonellau data defnyddiol:
  - data.worldbank.org
  - hdr.undp.org/en/data
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio gwefan Hans Rosling, *Gapminder* (www.gapminder.org), i archwilio sut y mae dangosyddion datblygiad wedi newid dros gyfnod. Mae'r dysgwyr yn defnyddio *Gapminder* yng *Ngweithgaredd 2.3* yn y pecyn *Daearyddiaeth* i ymchwilio i fylchau rhwng gwledydd o ran y dangosyddion datblygiad.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ymchwilio i'r cynnydd a wnaed o ran Nodau Datblygu'r Mileniwm ers cytuno arnynt yn 2000. Dewch i wybod mwy: www.un.org/millenniumgoals/2014%20MDG%20report/MDG%202014%20English%20web.pdf

  Mae'r dysgwyr yn cael cymorth i wneud hyn yn y pecyn *Daearyddiaeth – Sesiwn 7.*
- Gofynnwch i'r dysgwyr ymchwilio i ôl troed carbon pobl sy'n byw mewn gwahanol wledydd o amgylch y byd, ac effaith y newid yn yr hinsawdd ar bobl a'r blaned. Dewch i wybod mwy: www.oxfam.org.uk/education/resources/climate-challenge-11-14

Telerau defnydd

Hawlfraint © Oxfam GB/Bywydau Ifanc

Gallwch ddefnyddio'r lluniau a'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam a Bywydau Ifanc. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.

Newidiadau yng ngwledydd Bywydau Ifanc

	Mynediad at gyfleusterau glanweithdra (%)			Mynediad at ddŵr yfed (%)			Mynediad at drydan (%)		
	2002	**2013**	**Newid canrannol**	**2002**	**2013**	**Newid canrannol**	**2002**	**2013**	**Newid canrannol**
Ethiopia	22	63		54	45		36	59	
India	30	41		84	99		82	98	
Periw	77	94		50	80		65	94	
Fiet-nam	49	75		51	88		84	98	

Ffynhonnell: Bywydau Ifanc: www.younglives.org.uk

Newidiadau yng ngwledydd Bywydau Ifanc

	Mynediad at gyfleusterau glanweithdra (%)			Mynediad at ddŵr yfed (%)			Mynediad at drydan (%)		
	2002	**2013**	**Newid canrannol**	**2002**	**2013**	**Newid canrannol**	**2002**	**2013**	**Newid canrannol**
Ethiopia	22	63		54	45		36	59	
India	30	41		84	99		82	98	
Periw	77	94		50	80		65	94	
Fiet-nam	49	75		51	88		84	98	

Ffynhonnell: Bywydau Ifanc: www.younglives.org.uk

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Newidiadau yng ngwledydd Bywydau Ifanc

Tabl wedi'i lenwi

	Mynediad at gyfleusterau glanweithdra (%)			Mynediad at ddŵr yfed (%)			Mynediad at drydan (%)		
	2002	**2013**	**Newid canrannol**	**2002**	**2013**	**Newid canrannol**	**2002**	**2013**	**Newid canrannol**
Ethiopia	22	63	+186%	54	45	-17%	36	59	+64%
India	30	41	+37%	84	99	+18%	82	98	+20%
Periw	77	94	+22%	50	80	+60%	65	94	+45%
Fiet-nam	49	75	+53%	51	88	+73%	84	98	+17%

Ffynhonnell: Bywydau Ifanc: www.younglives.org.uk

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Cynnyrch mewnwladol crynswth (CMC) y pen (UDA$ cyfredol) Tabl

Gwlad	1965	1970	1975	1980	1985	1990	1995	2000	2005	2010
Ethiopia	-	-	-	-	233	253	134	124	162	342
India	122	115	161	272	303	375	382	452	729	1,388
Periw	433	542	1,078	1,017	824	1,178	2,163	1,967	2,714	5,056
Fiet-nam	-	-	-	-	239	98	288	433	699	1334
Y Deyrnas Unedig	1,851	2,348	4,300	10,032	8,652	19,095	21,296	26,296	39,935	38,362

Ffynhonnell ddata: *Data Agored Banc y Byd:* http://data.worldbank.org/

Graff llinell



Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Data'n newid 1

Disgwyliad oes adeg genedigaeth (blynyddoedd)

Dangosydd	1980	1985	1990	1995	2000	2005	2010
Ethiopia	44	45	47	49	52	57	61
India	55	57	59	60	62	64	66
Periw	60	63	66	68	71	72	74
Fiet-nam	67	69	71	72	74	75	75
Y Deyrnas Unedig	74	75	76	77	78	79	80

Ffynhonnell ddata: *Data Agored Banc y Byd:* http://data.worldbank.org/

Cyfradd marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw)

Dangosydd	1980	1985	1990	1995	2000	2005	2010
Ethiopia	143	132	122	106	90	70	51
India	114	101	88	78	66	56	46
Periw	82	71	56	43	30	21	16
Fiet-nam	47	42	37	31	26	23	20
Y Deyrnas Unedig	12	10	8	6	6	5	4

Ffynhonnell ddata: *Data Agored Banc y Byd:* http://data.worldbank.org/

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Data'n newid 2

Mynediad at ffynhonnell ddŵr well (% o'r boblogaeth gyfan)

Dangosydd	1980	1985	1990	1995	2000	2005	2010
Ethiopia	-	-	13	20	29	38	48
India	-	-	71	76	81	86	90
Periw	-	-	74	77	80	82	85
Fiet-nam	-	-	63	70	77	85	91
Y Deyrnas Unedig	-	-	100	100	100	100	100

Ffynhonnell ddata: *Data Agored Banc y Byd:* http://data.worldbank.org/

Mynediad at gyfleusterau glanweithdra gwell (% o'r boblogaeth gyfan)

Dangosydd	1980	1985	1990	1995	2000	2005	2010
Ethiopia	-	-	3	3	9	15	22
India	-	-	17	21	26	31	36
Periw	-	-	53	58	63	68	72
Fiet-nam	-	-	36	45	53	61	70
Y Deyrnas Unedig	-	-	99	99	99	99	99

Ffynhonnell ddata: *Data Agored Banc y Byd:* http://data.worldbank.org/

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Data'n newid 3

Cofrestriadau mewn ysgolion cynradd (% o'r grŵp oedran perthnasol)

Dangosydd	1980	1985	1990	1995	2000	2005	2010
Ethiopia	-	-	-	22	40	61	-
India	-	-	78	-	81	-	94
Periw	86	96	-	89	98	97	95
Fiet-nam	-	90	-	-	96	90	98
Y Deyrnas Unedig	98	93	99	-	100	99	99

Ffynhonnell ddata: *Data Agored Banc y Byd:* http://data.worldbank.org/

Allyriadau CO_2 tiriogaethol (tCO_2/person/blwyddyn)

Dangosydd	1980	1985	1990	1995	2000	2005	2010
Ethiopia	0.05	0.04	0.06	0.04	0.09	0.07	0.08
India	0.50	0.63	0.79	0.96	1.13	1.23	1.58
Periw	1.39	1.00	0.97	0.99	1.17	1.34	1.97
Fiet-nam	0.31	0.34	0.31	0.38	0.66	1.15	1.69
Y Deyrnas Unedig	10.30	9.92	10.36	9.56	9.46	9.32	8.05

Ffynhonnell ddata: *Atlas Carbon Byd-eang*: globalcarbonatlas.org (cyrchwyd y data ar 16 Rhagfyr 2015)

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Templed graff llinell



Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Dehongli graff llinell

Dangosydd: _____

- Sut byddech chi'n disgrifio'r newid yng ngwerth y dangosydd hwn dros gyfnod yn…?
  - Ethiopia
  - India
  - Periw
  - Fiet-nam
  - Y Deyrnas Unedig

- Pam fod y dangosydd hwn wedi newid yn y ffordd hon yn eich tyb chi?

- O edrych ar gyflymder y newid yn y pum gwlad, beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol?

- Beth yw'r rhesymau posibl dros unrhyw wahaniaethau yn eich tyb chi?

- Sut ydych chi'n meddwl y bydd y dangosydd hwn yn newid ym mhob gwlad yn y dyfodol? Pam ydych chi'n meddwl hyn?

- Beth ydych chi'n meddwl fydd gwerth y dangosydd hwn ym mhob un o'r gwledydd yn 2020? Beth am 2050?

	Ethiopia	India	Periw	Fiet-nam	Y Deyrnas Unedig
2020					
2050					

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM